# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 29 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Rownd Derfynol Cwpan Worthington

**C6 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwersi a ddysgwyd yn sgîl cynnal rownd Derfynol Cwpan Worthington yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd? (OAQ10661)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg (Jenny Randerson):** Cyfrifoldeb Stadiwm y Mileniwm ccc yw llwyfannu Rownd Derfynol Cwpan Worthington.

Mae grŵp ymgynghorol Stadiwm y Mileniwm, a sefydlwyd i edrych ar faterion megis trafnidiaeth, cyfathrebu a gwahanu cefnogwyr, eisoes wedi cyfarfod i nodi meysydd fydd yn achosi problemau, dysgu o'r profiadau a gafwyd gyda Rownd Derfynol Cwpan Worthington, a datblygu atebion i sicrhau bod digwyddiadau yn y dyfodol yn rhedeg mor llyfn â phosibl.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru, yr awdurdod lleol, y Gwasanaeth Tân, ac eraill.

Yn ogystal â hyn, cafodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, a minnau gyfarfod gyda'r Uwcharolygydd Gerry Toms ddydd Mawrth i drafod y sefyllfa.

### Ariannu'r Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a Môr

**C7 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog drefnu i roi gwybodaeth i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r cais am arian ar gyfer yr Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a Môr yn Abertawe? (OAQ10624) [R]

**Jenny Randerson:** Yr wyf wedi gofyn i'r Amgueddfa Genedlaethol drefnu papur briffio i holl Aelodau'r Cynulliad ynghylch sefyllfa bresennol ei fid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Amgueddfa Glan Dŵr Abertawe. Mae'n awyddus i wneud hynny a bydd yn rhoi trefniadau ar waith ar unwaith.

### Hybu'r Iaith Gymraeg yn Ardaloedd y Ffin

**C8 David Davies:** Beth a wneir i hybu'r iaith Gymraeg yn ardaloedd y ffin yng Nghymru? (OAQ10622)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn ymwybodol iawn mai nid yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn unig y mae diddordeb yn yr iaith, a chefnogaeth gref iddi. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi derbyn cyllid ychwanegol dros dair blynedd a fydd yn ei alluogi i ymestyn dau gynllun mawr i holl ardaloedd Cymru, gan gynnwys ardaloedd y gororau. Bydd y cynlluniau hyn yn golygu ymestyn y mentrau iaith, a'r prosiect sydd yn annog rhieni Cymraeg eu hiaith i ddysgu'r iaith i'w plant.

## Llyfrgelloedd, Orielau Celf ac Amgueddfeydd

**C9 John Griffiths:** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod pobl Cymru'n elwa cymaint ag y bo modd o'n llyfrgelloedd, orielau celf ac amgueddfeydd? (OAQ10686)

**Jenny Randerson:** Byddwn yn parhau i gefnogi'r sectorau hyn ar lefel genedlaethol a lleol. Yn benodol, drwy'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, yr ydym yn darparu £6.5 miliwn yn arbennig ar gyfer datblygu isadeiledd rhwydwaith TGCh llyfrgelloedd cyhoeddus; bron i £1 miliwn ar gyfer hyfforddi staff llyfrgelloedd cyhoeddus; a £50 miliwn (ar sail y DU) ar gyfer digido deunyddiau dysgu. Yr wyf hefyd wedi cyhoeddi papur ymgynghorol ar safonau ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. O 1 Ebrill ymlaen, bydd yr Amgueddfa Genedlaethol yn cael gwared â chostau mynediad, sydd yn golygu y bydd y casgliad cenedlaethol am ddim i bawb. Yn ogystal â hyn, yr wyf wedi gofyn i'r Amgueddfa Genedlaethol archwilio sut y gallai weithio gyda chyrff eraill, megis amgueddfeydd lleol ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod y gyfran fwyaf bosibl o'r casgliad cenedlaethol yn cael ei harddangos.

## Ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru

**C10 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut mae'r gwaith o ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru'n symud yn ei flaen? (OAQ10681)

**Jenny Randerson**: Disgwyliaf i'r cyngor gwblhau ei gynlluniau ar gyfer ailstrwythuro erbyn diwedd mis Ebrill. Mae eisoes wedi ystyried syniadau ar gyfer ei gylch gwaith; strategaeth datblygu'r celfyddydau; polisi datganoli; a threfniadau rheoli mewnol; ac mae wedi cynnal asesiad anghenion o'i weithgareddau.

Ceir mwy o fanylion am y broses ailstrwythuro ar wefan y Cyngor Celfyddydau yn http://www.ccc-acw.org.uk.

## Darparu ar gyfer Anghenion Cefnogwyr Pel-droed

**C11 Brian Gibbons:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cefnogwyr sydd yn dod i weld gemau pêl-droed mawr yng Nghaerdydd? (OAQ10619)

**Jenny Randerson**: Stadiwm y Mileniwm ccc sydd yn gyfrifol am gynllunio a gwireddu'r digwyddiadau hyn. Sefydlwyd nifer o grwpiau ymgynghorol, gyda rhai aelodau o Heddlu De Cymru a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd, ymysg eraill. Bydd y grwpiau'n ystyried materion megis gwahanu cefnogwyr, trafnidiaeth, trwyddedu a chyfathrebu ar gyfer y rhaglen o brif ddigwyddiadau pêl-droed sydd gerllaw. Dysgwyd gwersi defnyddiol o Rownd Derfynol Cwpan Worthington, a defnyddir y rhain mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

## Cymorth ar gyfer y Celfyddydau yng Ngorllewin Cymru

**C12 Christine Gwyther:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y cymorth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei roi i'r celfyddydau yng ngorllewin Cymru? (OAQ10614) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**C13 Gwenda Thomas:** Gan groesawu adroddiad Cyngor Chwaraeon Cymru ar gymryd rhan mewn chwaraeon, a'r cynnydd o 16 y cant a gafwyd, a wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i gymeradwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot? Dyma'r awdurdod sydd yn perfformio orau o ran chwaraeon yn y Cymoedd, er gwaethaf ei grant cynnal refeniw isel ar gyfer y cyfnod o dan sylw a chyn hynny. (OAQ10603)

**Jenny Randerson**: Defnyddir fformwla sydd wedi'i seilio ar anghenion i benderfynu sut y dosberthir grant cynnal refeniw ac mae'n un o elfennau cyllid bloc cyffredinol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn haeddu cael ei longyfarch am gynyddu nifer yr oedolion sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon.

Un o amcanion allweddol strategaeth y Cyngor Chwaraeon yw cynyddu nifer yr oedolion sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru i 60 y cant erbyn y flwyddyn 2005. Mae hefyd yn gobeithio haneru'r bwlch rhwng y rhanbarthau lle ceir y nifer mwyaf a'r nifer lleiaf o bobl sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru, a rhwng nifer y dynion a'r menywod sydd y cymryd rhan, erbyn y flwyddyn 2005.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, drwy gydweithio gyda'r cyrff llywodraethu chwaraeon a'r awdurdodau lleol, yn anelu at sefydlu cyfleoedd i bawb gael cymryd rhan mewn chwaraeon yn y gymuned. Un o amcanion eraill y Cyngor yw sicrhau bod nifer y bobl sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi ei ledaenu'n gyfartal ledled Cymru.

### Denu Digwyddiadau Chwaraeon Mawr i Gymru

**C14 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisi ar ddenu digwyddiadau chwaraeon mawr i Gymru? (OAQ10639)

**Jenny Randerson**: Mae Bwrdd Croeso Cymru'n gweithio gyda chyrff eraill i ddatblygu fframwaith i'r strategaeth digwyddiadau er mwyn cynorthwyo i nodi a denu prif ddigwyddiadau, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, i Gymru.

Yn ogystal â dod â buddiannau economaidd, bydd rhai o'r prif ddigwyddiadau chwaraeon, megis Rownd Derfynol Cwpan yr FA, yn gwella delwedd Cymru fel lleoliad i gynnal digwyddiadau rhyngwladol mawreddog. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i godi proffil rhyngwladol Cymru drwy ei hyrwyddo fel lle i ymweld ag ef, a lle i weithio a buddsoddi ynddo.

### Cyflawni Amcanion y Cytundeb Partneriaeth sy'n Gysylltiedig â Diwylliant a Chwaraeon

**C15 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gymerwyd er mwyn cyflawni'r amcanion a enwyd yn y cytundeb partneriaeth sydd yn gysylltiedig â diwylliant a chwaraeon? (OAQ10676)

**Jenny Randerson**: Cyflwynais fy ymateb i 'Diwylliant Cytûn' i'r Pwyllgor Diwylliant ddoe. Mae grŵp y Gweinidog ar ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd wedi cyfarfod deirgwaith ac yn gwneud cynnydd da yn y broses o gynllunio ar gyfer rhoi adroddiad Wallace ar waith. Mae'r Cyngor Celfyddydau hefyd yn cynnal gwaith ar gynllunio strategol, cronfa ddata'r celfyddydau i Gymru, a gwefan i gelfyddydau Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymru'n Creu eisoes, a bydd yn edrych ar sut y gall diwydiannau creadigol Cymru elwa ar gyllid strwythurol Ewropeaidd. Gwnaethpwyd cynnydd o £7.85 miliwn ar gyllid ar gyfer y celfyddydau dros y tair blynedd nesaf. Yr ydym wedi ymrwymo i ailsefydlu rôl chwaraeon mewn ysgolion a gwella safonau hyfforddi. Yr ydym felly wedi sicrhau bod addysg gorfforol, gan gynnwys gweithgareddau dan do ac awyr agored, yn parhau i fod yn rhan annatod o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd yng Nghymru a gyflwynwyd ym mis Medi 2000.

### Buddiannau Posibl yn y Tymor Hir i Dwristiaeth

**C16 Janet Ryder:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei gynnal o'r buddiannau posibl yn y tymor hir i dwristiaeth yng Nghymru, yn dilyn cynnal rownd derfynol cwpan yr FA a digwyddiadau chwaraeon eraill dros y blynyddoedd sydd i ddod? (OAQ10678)

**Jenny Randerson**: Mae prif ddigwyddiadau chwaraeon megis Rownd Derfynol Cwpan yr FA, Cwpan Rygbi'r Byd a Rali Network Q yn cynnig cyfleoedd i godi proffil Cymru yn rhyngwladol ac yn y DU, a hyrwyddo Cymru fel lle i ymweld ag ef, a lle i weithio a buddsoddi ynddo. Yn achos Rownd Derfynol Cwpan yr FA a digwyddiadau pêl-droed eraill, maent hefyd yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo Stadiwm y Mileniwm a Chaerdydd, y brifddinas a phorth pwysig i weddill Cymru, fel lleoliad ar gyfer prif

ddigwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau eraill. Am y rhesymau hynny, mae'r Cynulliad yn parhau i gefnogi bid Cymru i gynnal Cwpan Ryder, un o'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf yn y Byd, yn 2009.

Mae gwerthusiad a wnaethpwyd o effaith economaidd Cwpan Rygbi'r Byd yn 1999 yn amcangyfrif bod dros 330,000 o bobl wedi ymweld â Chymru o ganlyniad i'r gystadleuaeth, ar adeg o'r flwyddyn pan nad oes cymaint o deithwyr hamdden i'w gweld o amgylch y lle. Yr oedd 34 y cant o'r rhain o weddill y DU neu dramor. Disgwylir y cynhelir gwerthusiad ffurfiol o Rali Network Q ar ôl digwyddiad eleni ym mis Tachwedd, ond mae'r arwyddion hyd yma yn ffafriol gydag archebion am lety yn uwch mewn sawl rhan o Gymru.

Cynhelir gwerthusiad o'r buddiannau a gaiff Caerdydd a Chymru yn sgîl cynnal Rownd Derfynol Cwpan yr FA a phrif ddigwyddiadau pêl-droed eraill ar ôl gemau eleni. Bydd Bwrdd Croeso Cymru'n parhau i weithio gyda chyngor Caerdydd a'r partneriaid eraill sydd yn ymwneud â sicrhau'r digwyddiadau hyn i Gymru, er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo Cymru.

### Canolfan Mileniwm Cymru

**C17 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf ynghylch Canolfan Mileniwm Cymru? (OAQ10660)

**Jenny Randerson**: Mae'r gwaith ailddylunio a manylu a fydd yn datblygu'r cynlluniau ar gyfer y Ganolfan hyd at gam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain bron â dod i ben a disgwyliaf adroddiad gan y prosiect yn fuan. Cyflwynir canlyniadau'r ymarfer hwnnw i'r Cynulliad ym mis Ebrill.

### Clybiau Cynghrair Cymru

**C18 Ann Jones: Pa** drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch y cyfleusterau y mae'n angenrheidiol i glybiau Cynghrair Cymru eu cael? (OAQ10685) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Datblygiad Pêl-droed yng Nghymru

**C19 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad pêl-droed yng Nghymru? (OAQ10638)

**Jenny Randerson**: Cefais gyfarfod yn ddiweddar gyda swyddogion o brif gyrff pêl-droed Cymru er mwyn trafod cyfres o faterion sydd yn effeithio ar ddatblygiad pêl-droed yng Nghymru.

O ganlyniad i'r cyfarfodydd hyn, yr wyf ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd y gallwn gynorthwyo i ddatblygu'r gêm yng Nghymru. Yr wyf wedi gofyn i'r Cyngor Chwaraeon lunio papur cychwynnol ac yr wyf yn gwahodd safbwyntiau gan bartïon sydd â diddordeb yn y maes hwn, ynghylch a fyddai hi'n werth sefydlu fforwm pêl-droed i drafod strwythur pêl-droed yng Nghymru, a sut y'i hariennir.

### Cyfran yr Arian Loteri a Ddyrennir i Chwaraeon a'r Celfyddydau

**C20 Tom Middlehurst:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar ganlyniad yr adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig ar gyfran yr arian loteri a ddyrennir i chwaraeon a'r celfyddydau yng Nghymru? (OAQ10616)

**Jenny Randerson**: Yr ydym yn parhau gyda'n trafodaethau â'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r Alban a Gogledd Iwerddon ynghylch y mater hwn. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Diwylliant am y canlyniad, unwaith y bydd unrhyw beth i'w gofnodi.

### Creu Cronfa Ddata Gelfyddydol

**C21 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd tuag at gronfa ddata gelfyddydol i Gymru? (OAQ10682) [W]

**Jenny Randerson:** Ar fy nghais, bu Cyngor Celfyddydau Cymru'n ystyried opsiynau ar gyfer symud ymlaen â'r ymrwymiad yn y cytundeb partneriaeth i sefydlu cronfa ddata gelfyddydol i Gymru, ynghyd â gwefan a fydd yn cynnwys manylion cwmnïau a digwyddiadau celfyddydol. Byddaf yn cynnal trafodaethau ar y mater hwn gyda'r Cyngor yn fuan.

**Astudiaethau Dichonoldeb**

**C22 Richard Edwards:** Faint o astudiaethau dichonoldeb y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'u hariannu ers sefydlu'r Cynulliad? (OAQ10617) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Digwyddiadau Chwaraeon yn Stadiwm y Mileniwm (Manteision i Gymru)**

**C23 David Lloyd:** Sut y bydd y Gweinidog yn monitro'r manteision a ddaw i Gymru o lwyfannu digwyddiadau mawr ym myd chwaraeon yn Stadiwm y Mileniwm dros y blynyddoedd nesaf? (OAQ10675)

**Jenny Randerson**: Mae Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar hyn o bryd yn ystyried comisiynu ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo'r awdurdod i fonitro a gwerthuso effaith Rownd Derfynol Cwpan y FA a gemau eraill ar yr economi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i'r Cynulliad.

Mae rhai buddiannau'n haws i'w mesur nag eraill. Er enghraifft, ceir modelau cymeradwy ar gyfer nodi effeithiau economaidd sydd yn gysylltiedig â digwyddiadau. Mae'n anos mesur y buddiannau a geir o godi proffil Cymru'n rhyngwladol, ond bydd y Cynulliad a'i asiantaethau'n cydweithio i geisio gwneud yr amcangyfrifon gorau o'r effaith gyffredinol.

**Nawdd ym Myd Diwylliant a Chwaraeon**

**C24 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fater nawdd ym myd diwylliant a chwaraeon? (OAQ010629) [W]

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn awyddus y dylai chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol dderbyn cymorth, nid yn unig gan y Cynulliad, ond gan awdurdodau lleol a'r sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae trefniadau noddi priodol a manwl yn ffynhonnell werthfawr o gyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol, ac yn fuddiol i'r noddwr ac i'r rhai sydd yn derbyn y nawdd. Mae'r cynlluniau sydd yn cael eu rhedeg gan Gelfyddydau a Busnes a Sportsmatch yn enghreifftiau gwych o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy ddull partneriaeth. Mae'n dangos fod noddi yn bwysig, nid yn unig ar gyfer timau a digwyddiadau proffesiynol, ond hefyd ar gyfer sefydliadau a gweithgareddau amatur a chymunedol.

**Y Gronfa Cyfleoedd Newydd**

**C25 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r weithdrefn ar gyfer dyrannu yng Nghymru o'r gronfa cyfleoedd newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar? (OAQ10630)

**Jenny Randerson**: Bydd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn dechrau datblygu rhaglenni grantiau yn fuan, fel ymateb i gyfres o gynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan weithio'n agos â mudiadau perthnasol lle bo'n briodol. Mae gofyn i'r rhaglenni hyn hefyd gyd-fynd â pholisïau lleol a chenedlaethol. Gall y gronfa fabwysiadu amryw o wahanol fecanweithiau dosbarthu er mwyn cwrdd ag anghenion pob cynllun, er y rhoddir arian ar sail bidiau llwyddiannus o'u cymharu â meini prawf y rhaglen.

### Canran y Merched sydd yn Mynychu Clybiau Bowls

**C26 Glyn Davies:** Pa asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud o nifer y merched sydd yn mynd i glybiau bowls yng Nghymru? (OAQ10673)

**Jenny Randerson**: Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cyhoeddi canlyniadau ei arolwg diweddaraf o nifer yr oedolion sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon. Dengys yr ymchwil fod 1.1 y cant o fenywod yng Nghymru yn cymryd rhan mewn bowls dan do, tra bo 0.4 y cant yn ymddiddori mewn bowls awyr agored.

Yr wyf hefyd yn ymwybodol bod 0.87 y cant o fenywod sydd yn 50 oed neu’n hŷn yn aelodau o glybiau bowls yn 1998-99.

### Cronfa Ffilm i Gymru

**C27 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chynlluniau am gronfa ffilm i Gymru? (OAQ10627)

**Jenny Randerson**: Mae partneriaeth y Llywodraeth wedi ymgymryd â’r gwaith o ymchwilio i’r posibilrwydd o sefydlu cronfa ffilm. Mae partneriaeth Amcan 1 Cyllid Cymru wedi cytuno mewn egwyddor y gall gefnogi’r prosiect. Mae’r bartneriaeth wedi gofyn i Gyllid Cymru barhau â’r ymchwiliad. Mae ychydig o’r gwaith ymchwil eisoes wedi ei gwblhau. Mae mwy o waith ar y gweill er mwyn sicrhau y byddai sylfaen economaidd gadarn ar gael ar gyfer cronfa ac er mwyn nodi’r model gorau. Pan fydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau, byddaf mewn sefyllfa i roi mwy o wybodaeth.

### Trafodaethau gydag Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

**C28 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael gydag arweinydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd ar faterion diwylliannol sydd yn effeithio ar Gaerdydd? (OAQ10641)

**Jenny Randerson**: Yn ystod y misoedd diwethaf, yr wyf wedi cael trafodaethau anffurfiol ynghylch bid Prifddinas Diwylliant y cyngor ac yr wyf wedi gwahodd yr arweinydd i gwrdd â mi er mwyn trafod bid Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.

### Denu Digwyddiadau Mawr ym Myd Chwaraeon i Gymru

**C29 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd denu digwyddiadau mawr ym myd chwaraeon i Gymru? (OAQ10687)

**Jenny Randerson:** Mae denu rhai o’r prif ddigwyddiadau chwaraeon i Gymru yn rhoi’r cyfle i ni godi proffil Cymru dramor a hyrwyddo Cymru fel lle cyffrous i ymweld ag ef, ac i fuddsoddi ynddo. Mae’r rhai sydd yn mynychu digwyddiadau o’r fath, a daw llawer ohonynt o dramor, yn bwydo swm sylweddol o arian i’r economi leol. Dylai sicrhau digwyddiadau uchel eu proffil, megis Rownd Derfynol Cwpan yr FA, ein cynorthwyo i ddenu digwyddiadau eraill yn y dyfodol, oherwydd y byddwn wedi dangos fod gennym y cyfleusterau, yr isadeiledd a’r gallu i drefnu er mwyn sicrhau bod digwyddiadau o’r fath yn llwyddo.

### Defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i Ddibenion Darparu Chwaraeon

**C30 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau a gafodd ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i ddibenion darparu chwaraeon yng Nghymru? (OAQ10626) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Dyfodol y Diwydiant Cig Eidion yng Nghymru

**C7 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant cig eidion yng Nghymru? (OAQ10662)

**Carwyn Jones**: Bydd clwy'r traed a'r genau sydd yn y DU ar hyn o bryd, a'r lleihad yn y galw ym marchnad cig eidion Ewrop oherwydd BSE yn parhau i amharu ar y sector cig eidion yn y dyfodol agos. Yr wyf yn gadarn o'r farn fod gan gig eidion Cymru ddyfodol cadarnhaol; mae'n gynnyrch o ansawdd a gaiff ei fagu gan fwyaf ar dir pori naturiol.

### Dyfodol y Diwydiant Defaid yng Nghymru

**C8 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant defaid yng Nghymru? (OAQ10663)

**Carwyn Jones**: Bydd y gwaharddiad a osodwyd ar allforio anifeiliaid, cig a chynnyrch cig o'r DU yn cael effaith sylweddol ar y sector defaid yng Nghymru. Bwriadaf weithio gyda'r diwydiant amaeth a'r diwydiannau eraill sydd â diddordeb yn y maes hwn, er mwyn adfywio'r sector yn y tymor hwy.

### Taliadau Hwyr Cymorthdaliadau Tir Mynydd

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar daliadau hwyr cymorthdaliadau Tir Mynydd? (OAQ10642)

**Carwyn Jones**: Nid yw taliadau Tir Mynydd yn hwyr. Dechreuwyd prosesu taliadau Elfen 1 yn syth ar ôl i Reoliadau Tir Mynydd (Cymru) ddod i rym ar 1 Mawrth 2001. Hyd at 28 Mawrth, yr oedd gwerth £36.2 miliwn o daliadau wedi cael eu prosesu – 95 y cant o'r ceisiadau Elfen 1 sydd yn gymwys.

### Y Sefyllfa Ddiweddaraf ynghylch Clwy'r Traed a'r Genau

**C10 Richard Edwards:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed clwy'r traed a'r genau yng Nghymru? (OAQ10605) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Troi i Ffermio Organig

**C11 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed troi i ffermio organig yng Nghymru? (OAQ10691)

**Carwyn Jones**: Yr wyf yn falch o ddweud y bydd y cynllun ffermio organig, sydd yn cefnogi ffermwyr drwy'r cyfnod newid, yn dal i fod ar agor yn y dyfodol rhagweladwy. Ar ben hyn, bydd y ffermwyr sydd wedi methu â chael ymweliadau ardystio organig oherwydd clwy'r traed a'r genau yn dal i fod yn gymwys i dderbyn nawdd a bydd y cytundebau'n cael eu cwblhau cyn gynted ag y bydd y cyrff ardystio yn gallu parhau â'u hymweliadau.

Yr wyf wedi sicrhau cynnydd yn y cyllid ar gyfer cynllun ffermio organig eleni, o £1.95 miliwn i £4.23 miliwn, cynnydd o 117 y cant. Mae hynny'n ddigon i gynorthwyo'r holl ffermydd sydd wedi dechrau ar y newid. Hyd yma, yr ydym wedi derbyn 514 o geisiadau gan ffermwyr dan y cynllun, sydd yn golygu bod 40,000 hectar o dir un ai eisoes yn cynhyrchu ar sail gyfan gwbl organig neu'n newid i wneud hynny.

Yn ogystal â hyn, mae Canolfan Organig Cymru, a lansiwyd fis Gorffennaf diwethaf, bellach yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi ffermwyr organig drwy gydlynu'r hyfforddiant, mynediad at wybodaeth a'r

cyngor ymarferol gorau bosibl. Mae darpar ffermwyr organig yn dal i allu derbyn cyngor am ddim ar y fferm, drwy gyfrwng y gwasanaeth gwybodaeth ar gyfer trosi'n organig.

### Effaith Leader+ ar Sir Benfro

**C12 Christine Gwyther:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar Leader+ a'r ffordd y mae'n effeithio ar Sir Benfro? (OAQ10607) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Trafodaethau gyda'r Samariaid

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Samariaid ynglŷn â'r cymorth y gall ei gynnig i'n ffermwyr yn ystod yr argyfwng presennol? (OAQ10690)

**Carwyn Jones**: Nid wyf wedi cael trafodaethau uniongyrchol gyda'r Samariaid ond yr wyf yn ymwybodol o'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig ac mae fy swyddogion wedi ymgynghori ag ef ynghylch ein bwriad i sefydlu llinell gymorth straen byw yng nghefn gwlad, ac yr wyf yn bwriadu gwneud cyhoeddiad arni'n fuan. Yn ogystal â hyn, rhagwelir y byddant hwy'n aelodau o'r gweithgor straen byw yng nghefn gwlad yr ydym yn ei sefydlu er mwyn rhoi sylw i'r materion sydd yn effeithio ar gefn gwlad, cyrff gwirfoddol sydd ar hyn o bryd yn cynnig cefnogaeth i'r rhai sydd yn dioddef dan straen.

### Rheoli Clwy'r Traed a'r Genau

**C14 Nick Bourne:** Pa opsiynau eraill heblaw am losgi anifeiliaid yn ulw y mae'r Gweinidog wedi'u hystyried ar gyfer rheoli clwy'r traed a'r genau? (OAQ10643)

**Carwyn Jones**: Gellir hefyd cael gwared â'r anifeiliaid drwy eu claddu, eu llosgi neu eu rendro.

### Polisïau Gwledig yng Nghymru

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu ei gynigion ar gyfer polisïau gwledig yng Nghymru yn ystod 2002? (OAQ10694)

**Carwyn Jones**: Yr wyf wedi ailgynnull Partneriaeth Wledig Cymru. Yr oeddwn yn cadeirio un o gyfarfodydd y bartneriaeth ar 14 Chwefror yng Ngwbert. Trafodwyd nifer o'r dogfennau polisi allweddol a gynhyrchwyd gan y Cynulliad, gan gynnwys y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.

Cyflwynais hefyd bapur a oedd yn cynnig ffyrdd o ddatblygu polisi ar gyfer Cymru wledig. Cafwyd trafodaeth adeiladol iawn a byddaf yn datblygu fy nghynigion ymhellach, ynghyd â'r bartneriaeth.

Yn ogystal â hyn, sefydlwyd is-grŵp o'r bartneriaeth wledig sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant da byw a'r diwydiant twristiaeth, er mwyn cynghori'r Cynulliad ar faterion sydd yn codi yn sgîl clwy'r traed a'r genau ac i lunio cynllun ar gyfer ail-lansio'r economi wledig.

### Clwy'r Traed a'r Genau (Materion Budd-daliadau)

**C16 Peter Black:** O ganlyniad i ymddangosiad clwy'r traed a'r genau, pa faterion budd-daliadau sydd yn cael eu trafod? (OAQ10637)

**Carwyn Jones:** Gwnaethpwyd cyhoeddiadau ar fesurau i liniaru'r pwysau ariannol uniongyrchol ar fusnesau gwledig. Gyda Dirprwy Brif Weinidog Cymru, yr wyf yn ystyried amryw o opsiynau sydd yn anelu at ail-lansio'r economi wledig.

### Cyfanswm yr Anifeiliaid sy'n Debygol o Gael eu Difa

**C17 Alun Cairns:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfanswm yr anifeiliaid sydd yn debygol o gael eu difa o ganlyniad i'w ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth? (OAQ10667)

**Carwyn Jones**: Ar 27 Mawrth, yr oedd 38,370 o anifeiliaid wedi eu difa, ac yr oedd 31,757 ohonynt yn ddefaid.

### Annog Arallgyfeirio

**C18 Alun Pugh:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd er mwyn annog ffermwyr yng Nghymru i arallgyfeirio? (OAQ10692)

**Carwyn Jones**: Rhoir nifer o fesurau ar waith i annog ffermwyr i arallgyfeirio, gan gynnwys: y grant gwella ffermydd; y grant menter ffermydd; y grant proseswyr bwyd bychain (i gynorthwyo â datblygu prosesu gwerth ychwanegol ar raddfa fechan); y grant prosesu a marchnata (ar gyfer prosiectau mwy) a Chyswllt Ffermio. Bydd yr olaf o'r mesurau hyn yn cynnig mynediad at wasanaethau cynghori, gwybodaeth a hyfforddi cydlynol, ynghyd â mecanwaith trosglwyddo technoleg, a chyngor busnes personol, rhad ac am ddim, gan gynnwys cynllun datblygu busnes fferm.

### Hysbysu Aelodau'r Cynulliad am ei Ymweliadau fel Gweinidog

**C19 Peter Black:** Pa brotocol y mae'r Gweinidog yn ei weithredu ar gyfer rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad am ei ymweliadau fel Gweinidog â'u hetholaethau a'u rhanbarthau? (OAQ10636)

**Carwyn Jones**: Ein harfer presennol yw fod ACau etholaethau ac Aelodau Seneddol yn cael eu hysbysu ynghylch pob tro y bydd gweinidog yn ymweld â'u hardaloedd, fel mater o drefn.

### Effaith Clwy'r Traed a'r Genau

**C20 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch effaith clwy'r traed a'r genau ar Ddyffryn Clwyd? (OAQ10664) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Hyrwyddo Arallgyfeirio

**C21 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo arallgyfeirio ymhlith ffermwyr? (OAQ10635) [W]

**Carwyn Jones:** Rhoir nifer o fesurau ar waith i annog ffermwyr i arallgyfeirio, gan gynnwys: y grant gwella ffermydd; y grant menter ffermydd; y grant proseswyr bwyd bychain (i gynorthwyo â datblygu prosesu gwerth ychwanegol ar raddfa fechan); y grant prosesu a marchnata (ar gyfer prosiectau mwy) a Chyswllt Ffermio. Bydd yr olaf yn cynnig mynediad at wasanaethau cynghori, gwybodaeth a hyfforddi cydlynol, ynghyd â mecanwaith trosglwyddo technoleg, a chyngor busnes personol, rhad ac am ddim, gan gynnwys cynllun datblygu busnes fferm.

### Lleihau Cyfyngiadau

**C22 Alison Halford:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i leihau'r cyfyngiadau i'r ardaloedd hynny yng ngogledd-ddwyrain Cymru nad effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ10609)

**Carwyn Jones**: Yr ydym wedi cyflwyno trefn symud gyfyngedig drwy drefniadau trwyddedu llym ac wedi cyhoeddi arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch mynediad i gefn gwlad.

### Cyflogi Milfeddygon sydd Newydd Ymddeol

**C23 Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried cynlluniau i gyflogi milfeddygon sydd newydd ymddeol i helpu gyda'r argyfwng traed a'r genau? (OAQ10666)

**Carwyn Jones**: Mater i'r Gwasanaeth Milfeddygon Gwladol yw hwn. Mae Prif Swyddog Milfeddygon Cymru wedi cadarnhau bod milfeddygon preifat a milfeddygon sydd â'r cymwysterau priodol wedi cytuno i gynorthwyo gyda'r clwyf, gan gynnwys y rhai hynny sydd newydd ymddeol.

**Sefydlu Pwyllgor Apeliadau Amaeth**

**C24 David Davies:** Pa ddatblygiadau a wnaed tuag at sefydlu pwyllgor apeliadau amaeth? (OAQ10632)

**Carwyn Jones**: Yr wyf ar hyn o bryd yn ystyried y broses ar gyfer penodi aelodau'r panel. Gobeithiaf wneud penodiadau dros yr ychydig fisoedd nesaf, er gwaethaf y digwyddiadau presennol.

Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaethpwyd ynghylch cymorthdaliadau prif-gynllun y polisi amaethyddol cyffredinol yn ystod cynllun System Gweinyddu a Rheoli Integredig 2001 ac ymlaen, yn gymwys i gael eu hystyried gan y panel yn yr hydref.

Cynhelir Cyfarfod Llawn i drafod y materion sydd yn ymwneud â sefydlu panel apeliadau annibynnol maes o law, a disgwylir i'r ddeddfwriaeth berthnasol ddod i rym ym mis Gorffennaf.

**Digolledu Busnesau yn Nyffryn Clwyd**

**C25 Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddigolledu'r bobl hynny yn Nyffryn Clwyd yr effeithiwyd ar eu busnesau gan glwy'r traed a'r genau? (OAQ10665) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynnyrch Llaeth Cymru**

**C26 Brian Gibbons:** Pa gyfran o gynnyrch llaeth Cymru a brosesir yng Nghymru? (OAQ10612)

**Carwyn Jones**: Amcangyfrifir bod 1,430,258,167 litr o laeth wedi ei gynhyrchu ar gwota yng Nghymru yn 1999-2000, a chafodd 1,090,000,000 litr ohono ei brosesu yng Nghymru. 340,258,167 litr yw'r amcangyfrif o'r swm net a drosglwyddwyd o Gymru y flwyddyn honno.

Mae'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnal trafodaethau gyda nifer o gwmnïau ynghylch buddsoddiad ychwanegol posibl ym maes prosesu llaeth, yn enwedig yng ngorllewin Cymru. Yr wyf yn hyderus y bydd yr elfen hollbwysig hon o'n strategaeth bwyd amaethyddol yn cael ei chyflwyno yn ystod y misoedd nesaf.

**Clwy'r Traed a'r Genau**

**C27 Christine Gwyther:** A all y Gweinidog roi adroddiad ar hynt clwy'r traed a'r genau yng Nghymru? (OAQ10606) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhwystro Prynwyr rhag Talu Llai am Gynnyrch Fferm**

**C28 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i rwystro prynwyr rhag defnyddio sefyllfa clwy'r traed a'r genau i dalu llai i ffermwyr am eu cynnyrch? (OAQ10610)

**Carwyn Jones**: Yr wyf yn monitro'r sefyllfa'n ofalus. Gallai cyfuniad o gostau uwch ar gyfer lladd-dai'r DU a llai o gig wedi'i fewnforio ar gael yn dilyn achosion o glwy'r traed a'r genau mewn rhai o aelod-wladwriaethau eraill yr UE arwain at brisiau cig uwch. Nid oes, fodd bynnag, dystiolaeth bod yr archfarchnadoedd yn gorelwa gan eu bod yn dal i geisio cwrdd â gofynion y cwsmeriaid.